Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# DIRPRWY BENNAETH FFLYD A PHEIRIANNEG

**Adran y Fflyd, Cyffordd Llandudno**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos (Oriau sefydlog Llun-Iau 8am-4pm Gwener 8am-3.30pm)**
**Graddfa GTAGC 10 £44,428- £47,420y flwyddyn**

Ni fu erioed amser gwell i ymuno â thîm Fflyd a Pheirianneg y Gwasanaeth fel Dirprwy Bennaeth Fflyd a Pheirianneg.

Bydd y rôl allweddol hon yn cynorthwyo'r Pennaeth Fflyd a Pheirianneg mewn ystod eang o weithgareddau Rheoli Fflyd a Pheirianneg, datblygu polisi a dirprwyo lle bo hynny'n briodol / pan fo angen. Rydym yn chwilio am berson ymroddedig, angerddol i greu a datblygu tîm ymgysylltiol a llawn cymhelliant trwy ddarparu arweinyddiaeth gadarnhaol, ysbrydoledig a gweladwy iawn.

Byddwch yn goruchwylio'r gwaith o reoli caffael cerbydau ysgafn a cherbydau System Dyletswydd Flexi, Pennaeth Cefnogi Adran wrth bennu cyllideb yn y dyfodol, cynllunio o fewn paramedrau cyllideb presennol, gan nodi gwerthusiadau cerbydau, nodi mathau o gerbydau i'w hystyried, cysylltu ag adeiladwyr cerbydau wrth osod systemau diogelwch a cherbydau gwell fel teledu cylch cyfyng ac offer mewnol.

Cefnogi'r Pennaeth Fflyd a Pheirianneg mewn cyfrifoldeb goruchwylio ar gyfer Goruchwylwyr Technegol y Fflyd a Pheirianneg, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau Goruchwylio Fflyd a Pheirianneg bob amser. Mae hyn yn cynnwys rheoli absenoldeb, nodi anghenion hyfforddi staff, hyrwyddo hyfforddiant mewnol a rhannu gwybodaeth a chysylltu â'r Pennaeth Fflyd a Pheirianneg i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu.

Bydd gan ddeiliad y swydd gyfrifoldeb cyffredinol am lefelau cynhyrchiant Adrannau Fflyd, gan gynnwys ffigurau amser segur, asesiadau risg a dangosyddion perfformiad a gweithredu unrhyw welliannau a nodwyd. Sicrhau bod ymddygiad/perfformiad staff yn cael ei gynnal i'r lefel sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth a'r Pennaeth Fflyd a Pheirianneg, a bod unrhyw fethiant i gyflawni'r lefel ofynnol yn cael ei reoli'n gywir trwy gysylltu â'r Goruchwyliwr Technegol Fflyd a Pheirianneg.

Mae rhagor o wybodaeth am y rôl, gan gynnwys disgrifiad swydd a phecyn ymgeisio, ar gael ar wefan Tân ac Achub Gogledd Cymru neu drwy e-bostio: recruitment@northwalesfire.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais ydi hanner dydd, 24/10/24.**

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau
PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT
CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME
CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022
GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall
Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.